Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Estyn C.P.

Dyddiad yr arolygiad: 21/09/2026

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Crynodeb

Mae Ysgol Estyn yn gymuned ddysgu hapus, anogol a chynhwysol iawn lle mae bron pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai o aelwydydd incwm isel, yn gwneud cynnydd cryf a chynaledig o'u mannau cychwyn unigol. Mae disgyblion yn dangos agweddau rhagorol tuag at ddysgu. Maent yn cydweithio'n dda ac yn datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus, gwydn ac annibynnol iawn. Maent yn gwneud dewisiadau pwrpasol am eu dysgu, yn dal ati i ganolbwyntio'n dda ac yn dangos blaengaredd wrth ddewis adnoddau, datrys problemau a gwerthuso'u gwaith eu hunain.

Mae staff yn defnyddio amgylcheddau dysgu dan do ac yn yr awyr agored yn eithriadol o dda i ddatblygu dysgu, lles ac annibyniaeth disgyblion. Maent yn darparu profiadau dysgu cyfoethog a difyr sy'n annog disgyblion i archwilio, ymchwilio ac arwain agweddau ar eu dysgu eu hunain. Mae disgyblion yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, yn cyfrannu'n ystyrlon at fywyd yr ysgol ac yn datblygu medrau arwain cryf trwy ystod o grwpiau arweinyddiaeth disgyblion.

Mae'r ysgol wedi sefydlu diwylliant cryf o iaith a llythrennedd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn hyderus, yn trafod llyfrau'n frwdfrydig ac yn cymhwyso geirfa gynyddol gyfoethog yn eu hysgrifennu ar draws ystod o gyd-destunau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu gwybodaeth fathemategol, eu cymhwysedd digidol, a'u medrau datrys problemau yn dda, ac yn eu cymhwyso'n llwyddiannus i'w gwaith yn ystod gweithgareddau dysgu difyr a phwrpasol. Mae athrawon yn darparu lefel briodol o her ac yn defnyddio adborth yn effeithiol i gynorthwyo disgyblion i fireinio'u gwaith a dyfnhau eu dealltwriaeth.

Un o gryfderau nodedig yr ysgol yw ei gwaith hynod effeithiol gydag ysgolion lleol. Mae arweinwyr a staff yn gweithio'n bwrpasol gyda chydweithwyr i rannu a datblygu ymagweddau effeithiol at addysgu a dysgu, datblygu eu cwricwlwm, cryfhau dysgu proffesiynol ar gyfer staff a sicrhau trefniadau pontio esmwyth ar gyfer disgyblion.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth strategol ddynamig ac yn cael cefnogaeth dda gan lywodraethwyr, arweinwyr a staff ymroddgar sy'n rhannu ffocws diwyro ar wella deilliannau ar gyfer pob disgybl. Caiff disgyblion eu hannog i chwarae rôl weithgar yn eu cymuned a datblygu i fod yn ddinasyddion gwerthfawr a chyfrifol trwy ystod eang o gyfleoedd ystyrlon i gyfrannu at fentrau lleol, cefnogi digwyddiadau cymunedol ac ymgysylltu â phobl y tu hwnt i'r ysgol.

Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Datblygu medrau llafaredd Cymraeg disgyblion ymhellach.

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn: https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/6642024

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/11/2026